Allwedd Statws

| | |
|---|---|
| (glas) | Wedi'i gwblhau |
| (gwyrdd) | Cynnydd da |
| (oren) | Cynnydd cyfyngedig |
| (coch) | Dim Cynnydd |

**Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Dyddiad Archwilio: 21-25 Tachwedd 2016**
**Dyddiad yr Ymweliad Dilynol: 23 - 24 Hydref 2019**

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, cynnwys amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [ Y Safon – 3.1] | (gwyrdd) | <u>Diweddariad 2019</u><br>Rhestrwyd 5 cam gweithredu penodol i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu Strategol y flwyddyn gyfredol cyn ei gyflwyno | Mae gwelliannau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth drafft ar gyfer 2019/20, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd y dyfodol yn cael eu datblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- siart sefydliadol lefel weithredol,<br>- nifer yr ymyriadau safonau bwyd categori B a C sy'n aros am ymyriad (gan gynnwys y rhai sy'n dal i aros o flynyddoedd blaenorol),<br>- nifer y sefydliadau safonau bwyd heb sgôr,<br>- nifer y busnesau newydd disgwyliedig,<br>- asesiad cyffredinol diwygiedig o'r adnoddau gofynnol yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael gyda datganiad clir ar y diffyg swyddogion sydd ar gael ar hyn o bryd. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn Cynlluniau Gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd ac unrhyw dargedau perfformiad, safonau a chanlyniadau a nodwyd. Sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo naill ai i'r fforwm aelodau perthnasol neu'r uwch swyddog dirprwyedig priodol. [Y Safon – 3.2] | | Diweddariad 2019: Perfformiad 2019/20 i'w adlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Strategol 20/21 i gynnwys y meini prawf gofynnol | Roedd yr adolygiad perfformiad yn erbyn targedau'r flwyddyn flaenorol, o fewn y Cynllun Gwasanaeth, yn cynnwys peth o’r wybodaeth ofynnol. | Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd gan gynnwys:<br>- adolygiad o sefydliadau safonau bwyd â sgoriau B a C,<br>- prydlondeb yr ymateb i ymyriadau adweithiol fel ceisiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau i glefydau heintus,<br>- adolygiad o samplau bwyd a gynhaliwyd yn erbyn y cynllun samplu,<br>- adolygu adolygiad o safleoedd safonau bwyd categori A i adlewyrchu'r gwir ganran a gyflawnwyd,<br>- esboniad am yr holl amrywiadau gan gynnwys yr un ar gyfer safleoedd hylendid bwyd categori D.<br>- datganiad yn ymwneud â gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob maes amrywiant gan gynnwys ymyriadau safonau bwyd, rhaglenni samplu bwyd<br>Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad yn y Cynllun Gwasanaeth yn cael ei |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gymeradwyo ar y lefel briodol yn unol â'r Safon. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 4.6 (i) Sicrhau bod y polisi gorfodi a fabwysiadwyd yn cael ei ddiweddaru gyda gwybodaeth a chyfeiriadau cyfredol a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â gweithdrefnau rheoli dogfennau. [Y Safon – 4.1 & 4.2] | | | Mae Polisi Corfforaethol diwygiedig a chyfredol wedi'i ddarparu. | Wedi'i gwblhau |
| 5.9 (i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol; a sicrhau bod dogfennau awdurdodi ar gyfer swyddogion hylendid bwyd yn cael eu llofnodi gan berson sydd â'r pŵer i wneud hynny yn unol â'r Cyfansoddiad a gweithdrefn yr awdurdod. [Y Safon – 5.1] | | Diweddariad 2019: Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo. Pennaeth Gwasanaeth/ Adran Gyfreithiol wedi cael gwybod am y mater. | Roedd swyddogion wedi'u hawdurdodi'n gywir yn unol â gweithdrefn ddiwygiedig. Roedd dogfennau awdurdodi yn cyfeirio at fatrics deddfwriaeth wedi'i ddiweddaru. | Mae angen diweddaru Cynllun Dirprwyo'r awdurdod sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad. |
| 5.9 (ii) Sicrhau bod lefel awdurdodiad pob swyddog hylendid bwyd a safonau bwyd yn gyson â'u cymwysterau a'u hyfforddiant. [Y Safon – 5.3] | | | Roedd swyddogion sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau a'u hyfforddiant. | Wedi'i gwblhau |
| 5.9 (iii) Sicrhau bod yr holl swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig yn bodloni'r | | | Roedd swyddogion sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gofynion hyfforddi a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP [Y Safon – 5.4] | | | yn bodloni gofynion HACCP. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 5.9 (iv) Cadw cofnodion o holl gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau eraill ar gyfer swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd awdurdodedig. | | | Roedd cofnodion hyfforddi yn cael eu cadw ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd. | Wedi'i gwblhau |
| 6.7 (i) Diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi thermomedrau i sicrhau bod goddefiannau penodedig yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a sefydlu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer cynnal a chadw offer a ddefnyddir gan wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 6.2] | | | Mae'r weithdrefn wedi'i diwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 7.26 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | Diweddariad 2019: Dylid ceisio cymeradwyaeth i lenwi pob swydd wag er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad. | Nid oedd nifer y safleoedd a oedd yn hwyr yn cael ymyriad wedi gostwng ers yr archwiliad gwreiddiol tra bod nifer y sefydliadau categori | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechreuwyd ar y broses recriwtio. Bwriadu llenwi pob swydd wag | C a oedd yn hwyr yn cael ymyriad wedi cynyddu. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.26 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd a chymeradwyo a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun. Yn arbennig, sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod sgorio risg ymyriadau ac ymweliadau dilynol yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | | | Roedd prosesau ymyrryd ac arolygu wedi'u gwella. | Wedi'i gwblhau |
| 7.26 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | | Diweddariad 2019: Adolygu profforma arolygu i'w gynnwys. Cynnwys meini prawf yn y ffurflenni monitro ar gyfer cyflawnrwydd. | Roedd y prosesau asesu wedi gwella. | Sicrhau bod asesiadau HACCP, hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n trin bwyd, marciau adnabod, bwyd wedi'i fewnforio a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n gyson. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ar gyfer safleoedd cymeradwy, sicrhau bod HACCP, hyfforddiant hylendid bwyd, trafodaethau â sefydliadau sy’n trin bwyd, marciau iechyd ac adnabod a threfniadau tynnu a galw cynnyrch yn ôl yn cael eu hasesu'n gyson. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.26 (iv) Sicrhau bod y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio, amserlenni ar gyfer ailymweliadau a chyfarwyddyd ar gyfer swyddogion ar b'un a ddylid cymryd samplau. Yn ogystal, diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer sefydliadau cymeradwy i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer ymyriadau a'r broses gymeradwyo. Mewn perthynas â'r Weithdrefn Strategaeth Gorfodi Amgen, diwygio i gynnwys manylion am yr wybodaeth a fyddai'n sbarduno ymweliad gan yr awdurdod. [Y Safon – 7.4] | | | Roedd gweithdrefnau ymyrryd hylendid bwyd a sefydliadau cymeradwy wedi'u diwygio. Nid oedd strategaethau gorfodi amgen yn cael eu defnyddio mwyach. | Wedi'i gwblhau |
| 7.26 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid | | Diweddariad 2019: Ystyried cymhwyso i | Roedd cofnodion arsylwi arolygiadau wedi gwella. | Sicrhau bod arsylwadau mewn perthynas â maint, graddfa a chwmpas busnesau yn cael eu cofnodi a bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| bwyd yn cael eu cofnodi’n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | fonitro/adolygu meysydd dal data penodol os oes angen. | | asesiadau'n ymdrin â phob agwedd ar yr aide memoire. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.42 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | Diweddariad 2019: Yn ystod 2020/21, ymdrechu i gwblhau ymweliadau risg uchel a chanolig unigol o fewn cyfnodau amser priodol. Mae arolygiadau safonau bellach wedi'u halinio ag arolygiadau hylendid. | Mae nifer y safleoedd sy’n cael eu sgorio o ran risg gan ddefnyddio cynllun priodol ar gyfer safonau bwyd wedi cynyddu'n sylweddol ac mae rhaglen ar waith i fynd i'r afael â'r safleoedd sy'n weddill. | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.42(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog i gynnwys defnyddio system sgorio risg briodol. [Y Safon – 7.2] | | | Roedd prosesau ymyrryd ac arolygu wedi gwella. | Wedi'i gwblhau |
| 7.42 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol [Y Safon – 7.3] | | | Gwnaed rhywfaint o welliannau i asesiadau cydymffurfiaeth. | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu gwneud o ran cyflwyno a labelu, systemau rheoli ansawdd, galw cynnyrch yn ôl ac olrhain a chyfansoddiad. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.42 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | Cyf 7.26 (v) | Roedd y broses o gofnodi arsylwadau wedi gwella. | Sicrhau bod arsylwadau mewn perthynas â maint, graddfa a chwmpas gweithgareddau busnes yn cael eu cofnodi'n gyson. |
| 8.8 (i) Diwygio'r weithdrefn gwynion hylendid bwyd i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer delio â chwynion o ran cyflwr safleoedd. [Y Safon – 8.1] | | | Roedd y weithdrefn wedi'i diwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 8.8 (ii) Sicrhau bod cwynion neu geisiadau gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir mewn gweithdrefnau lleol [Y Safon 8.2] | | | Gwnaed gwelliannau mewn perthynas â'r ffordd y mae cwynion a cheisiadau gwasanaeth yn cael eu gweithredu. | Wedi'i gwblhau |
| 11.5 (i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau, yn cael eu cynnwys a'u cadw'n gywir yng nghronfa ddata'r awdurdod. Hefyd, sicrhau mai dim ond y sefydliadau hynny sydd wedi cael arolygiad safonau bwyd sy'n cael eu cofnodi a'u sgorio felly ar y gronfa ddata. [Y Safon – 11.1] | | Diweddariad 2019: Parhaus. Parhau â rôl adolygu/monitro cymheiriaid. | Mae mabwysiadu gweithdrefnau ymyrraeth safonau bwyd newydd wedi lleihau gwallau data. Mae gwelliannau mewn gwiriadau cronfa ddata hefyd wedi lleihau gwallau data. | Sicrhau bod gwiriadau ar gronfa ddata yn parhau i fynd i'r afael â gwallau yn ymwneud â sgorio risg a dyddiadau dyledus. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 12.10(i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei bolisi samplu ar gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn benodol, mewn perthynas â'r ddau wasanaeth, dylid cynnwys manylion pellach mewn perthynas â samplu y tu allan i oriau. Dylai'r polisi samplu safonau bwyd gynnwys gwybodaeth am hysbysu'r canlyniadau i'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol a'r polisi mewn perthynas â monitro dilysu bwyd, ymchwiliadau arbennig a bwyd wedi'i fewnforio. [Y Safon – 12.4] | | | Roedd y polisi wedi'i ddiwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 12.10 (ii) Diwygio a gweithredu ei raglen samplu ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol i gynnwys manylion penodol am nifer y bwydydd i'w samplu. [Y Safon – 12.4] | | | Roedd y rhaglen samplu wedi'i diwygio. | Wedi'i gwblhau |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 12.10 (iii) Diwygio a gweithredu ei weithdrefnau cofnodedig ar gyfer samplu bwyd yn ficrobiolegol, i gynnwys gwybodaeth am yr offer penodol sydd eu hangen i samplu, trefniadau'r awdurdod ar gyfer storio a chludo, gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau'r awdurdod ar gyfer samplu swmp bwyd poeth/oer, solet/wedi'i rewi a hylif a threfniadau'r awdurdod sy'n ymwneud â pharhâd tystiolaeth yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | | | Roedd y weithdrefn wedi ei diwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 12.10 (iv) Dogfennu a gweithredu ei weithdrefn ar gyfer samplu dadansoddiad cemegol bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | | | Roedd y weithdrefn wedi ei diwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 12.10 (v) Cymryd y camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau sampl yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Agored | | Dal heb ei brofi gan nad oedd unrhyw samplau anfoddhaol ar gael yn ystod cyfnod amser perthnasol yr archwiliad dilynol hwn. | Cymryd camau priodol lle mae samplau safonau bwyd yn anfoddhaol. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 13.10 (i) Diwygio ei gynllun achosion *(Outbreak Plan)* i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion. [Y Safon – 13.1] | | | Diwygiwyd y cynllun achosion. | Wedi'i gwblhau |
| 13.10 (ii) Diwygio’r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn ymchwilio i bob hysbysiad yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, gan gynnwys Campylobacter. Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu’n llawn i gynnwys ymchwilio i hysbysiadau a chymryd camau dilynol. [Y Safon – 13.2] | | Diweddariad 2019: Cyflwyno ail lythyr dilynol er mwyn sicrhau cyflawnrwydd. | Diwygiwyd y weithdrefn yn rhannol i gynnwys ymchwilio i achosion o campylobacter trwy'r post.<br><br>Roedd y weithdrefn wedi'i rhoi ar waith yn llawn. | Diwygio’r weithdrefn ymhellach i sicrhau, pan ddefnyddir holiadur drwy’r post a nad yw’n cael ei ddchwelyd neu mae’n cael ei ddychwelyd yn rhannol, y ceisir cwblhau'r ymchwiliad. |
| 15.28 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd yn y sefydliadau hynny lle mae'n weithredwr busnes bwyd a sicrhau ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y | | Diweddariad 2019: Polisi Gorfodi Bwyd i'w gynnwys fel atodiad yn y Grŵp Gorfodi nesaf. | Mae polisi gorfodi corfforaethol diwygiedig wedi'i gymeradwyo sy'n cynnwys peth o'r wybodaeth ofynnol, ynghyd â pholisi gorfodi diogelwch bwyd ar wahân sy'n | Sicrhau bod y polisi gorfodi diogelwch bwyd hefyd yn cael ei gymeradwyo. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fforwm aelodau perthnasol. [Y Safon – 15.1] | | | cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.28 (ii) Cynnwys yn ei weithdrefnau gorfodi ar gyfer Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid, cau gwirfoddol a chadw bwyd, manylion y trefniadau lleol, yn benodol; dull a chofnod y gwasanaeth, gwiriadau o ran cydymffurfio, a defnyddio templedi cymeradwy. Dylai hefyd gynnwys yn ei weithdrefn Atafael a Chadw fanylion y trefniadau lleol, yn benodol; y gofyniad am hysbysiadau a dogfennau cysylltiedig a'r defnydd ohonynt a'r trefniadau lleol ar gyfer dod â bwyd gerbron ynad heddwch a dinistrio a gwaredu bwyd. [Y Safon – 15.2] | | | Roedd y gweithdrefnau gorfodi wedi'u diwygio. | Wedi'i gwblhau |
| 15.28 (ii) Sefydlu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer ymweliadau dilynol a chamau gorfodi ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | | | Mae'r weithdrefn wedi'i dogfennu. | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.28 (iv) Sicrhau bod gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gyflawni yn unol â'i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safonau – 15.2 a 15.3] | | Diweddariad 2019: Templedi wedi'u diwygio. Cyfeiriad wedi'i gynnwys ar yr Hysbysiad Gwella. Ail-anfonwyd ffurflenni prawf cyflwyno.<br><br>Ystyriaeth i wella'r weithdrefn orfodi. | Bu rhywfaint o welliant i'r prosesau gorfodi.<br><br>Mae llawer o'r argymhelliad hwn yn parhau heb ei brofi gan na chyflwynwyd unrhyw hysbysiadau camau unioni, doedd dim ildio gwirfoddol, cadw nac ardystio bwyd ac ni fu unrhyw erlyniadau na Rhybuddion Syml yn ystod cyfnod amser perthnasol yr archwiliad dilynol hwn. | Sicrhau bod Hysbysiadau Gwella Hylendid yn defnyddio cyfeiriad y llys lleol at ddibenion apelio; bod copïau o hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gael a bod prawf o gyflwyno yn cael ei gofnodi. Yn ogystal, sicrhau gwiriadau amserol ar gydymffurfiaeth a bod gwaith dilynol priodol yn digwydd.<br><br>Sicrhau bod y defnydd o Rybuddion Camau Unioni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; eu bod yn defnyddio cyfeiriad y llys lleol at ddibenion apelio; eu bod yn cyfateb i'r manylion cofrestru a gedwir ar ffeil ar gyfer y busnes bwyd, bod tystiolaeth o gyflwyno yn cael ei chadw a bod gwiriadau amserol ar gydymffurfiaeth.<br><br>Ar gyfer Ildio Gwirfoddol, sicrhau bod yr amser, y lle a'r dull dinistrio yn cael eu dogfennu a bod cofnod o'r dinistr, wedi'i lofnodi gan y Swyddog. Ar gyfer Ardystio, sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud â sut yr ymdriniwyd â'r bwyd a'r canlyniad yn cael eu cadw. Ar gyfer bwyd sy’n cael ei ddal, sicrhau bod hysbysiadau'n cael eu cadw a'u bod yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys lleoliad y mae'r bwyd yn cael ei gadw.<br><br>Ar gyfer ffeiliau erlyn a Rhybudd Syml, sicrhau bod ffeiliau wedi'u diweddaru'n llawn gan gynnwys datganiadau tystion a bod manylion yn cael eu darparu ar gyfer rolau swyddog ymchwilio, swyddog â gofal, swyddog datgelu a swyddog erlyn (y mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â'r Cynllun Dirprwyo Pwerau). |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.28 (v) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei weithredu a bod pob penderfyniad ar gamau gorfodi yn cael ei gofnodi a'i wneud ar ôl ystyried y polisi gorfodi. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safonau – 15.1 a 15.4] | | Diweddariad 2019: Mae'r templed erlyn yn darparu ar gyfer cynnwys gofynion penodedig. | Roedd penderfyniadau yn ymwneud â gorfodi ymyriadau safonau bwyd yn unol â Pholisi.<br><br>Mae llawer o'r argymhelliad hwn yn parhau heb ei brofi gan nad oedd unrhyw samplau anfoddhaol, dim hysbysiadau camau unioni nac unrhyw erlyniadau na rhybuddion syml yn ystod cyfnod amser perthnasol yr | Sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â gorfodi sy'n cynnwys samplau anfoddhaol, hysbysiadau gwella hylendid a hysbysiadau camau unioni yn cael eu gwneud yn unol â'r Polisi.<br><br>Sicrhau bod penderfyniadau ar Rybuddion Syml ac erlyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'r Polisi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | archwiliad dilynol hwn. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 16.8 (i) Cynnal cofnodion cywir cyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau/arolygiadau yn unol ag Atodiad 6, manylion ymchwiliadau i glefydau heintus a gwybodaeth gofrestru berthnasol. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | Diweddariad 2019: Bydd yn newid y broses os oes angen.<br><br>Mae ffeiliau coch wedi'u hamgáu yn cyfeirio at ac yn cynnwys unrhyw ofynion. | Gwnaed gwelliannau mewn perthynas â chofnodion sefydliadau cymeradwy a sefydliadau heb eu cymeradwyo a chynnwys adroddiadau ar ymyriadau. | Sicrhau bod ffurflenni cofrestru bwyd ar gael a'u bod naill ai â stamp dyddiad neu fel arall yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata.<br><br>Sicrhau bod cynlluniau dyluniad, cynlluniau lleoliad ar gyfer offer, cynlluniau dosbarthu dŵr, cynlluniau draenio a chynlluniau rheoli plâu ar gael yn gyson ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy, ynghyd â gweithdrefnau galw cynnyrch yn ôl. |
| 16.13 (i) Sicrhau y caiff busnesau eu darparu ag adroddiadau yn dilyn ymyriad, a bod ffurflenni adrodd am arolygiadau safonau bwyd a ddarperir yn dilyn ymyriad/arolygiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | | Roedd adroddiadau arolygu ar gael ac yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol. | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 19.11 (i) Adolygu ei weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys gwiriadau ar gywirdeb y gronfa ddata, gwiriadau ar awdurdodiadau swyddogion a gwiriadau ar gofnodion ymchwiliadau i hysbysiadau clefydau heintus. Gweithredu gweithdrefnau hylendid bwyd a safonau bwyd yn llawn i sicrhau bod gweithgareddau darparu gwasanaeth eraill yn ogystal â chofnodion ffeiliau arolygu hefyd yn destun monitro mewnol. [Y Safon – 19.1] | | Diweddariad 2019: Y weithdrefn i'w datblygu ymhellach. Rôl i'w gweinyddu gan swydd uwch sy'n wag ar hyn o bryd. | Mae'r weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig a'r ffurflenni templed cysylltiedig wedi'u hadolygu i gynnwys gwiriadau cronfa ddata, awdurdodiadau swyddogion, ymchwiliadau i glefydau heintus.<br><br>Mae'r weithdrefn wedi'i rhoi ar waith yn rhannol. | Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei diwygio ymhellach i nodi'n glir yr amlderau lleiaf ar gyfer gweithgareddau monitro mewnol a thempledi a ddiwygiwyd i ddarparu cofnod o adborth y swyddog monitro.<br><br>Sicrhau bod y gwaith monitro mewnol yn cael ei weithredu'n llawn yn unol â'r weithdrefn fonitro fewnol gan gynnwys arolygiadau cysylltiedig, ac adborth a ddarperir mewn cyfarfodydd tîm. |
| 19.11 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | | | Mae cwmpas y system fonitro fewnol yn ymgorffori pob gweithgaredd ac elfen. | Wedi'i gwblhau |
| 19.11 (iii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu llunio o'r holl waith monitro mewnol ar gyfer safonau bwyd, gan gynnwys natur a maint y | | Cyfeiriad 19.11 (i) | Roedd cofnodion y mwyafrif o elfennau monitro mewnol yn cael eu cynnal. | Sicrhau bod cofnod o adborth y swyddog monitro yn cael ei gynnal, yn unigol ac mewn cyfarfodydd tîm. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gweithgarwch monitro a bod y rhain yn cael eu cadw am o leiaf dwy flynedd. [Y Safon – 19.3] | | | | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 20.7 (i) Gweithredu camau unioni effeithiol i fynd i'r afael â'r holl enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio a godwyd o Ymarfer Olrhain a Dilysrwydd Pysgod Cregyn 2014 ac archwiliad 2014 o reolaethau hylendid swyddogol mewn sefydliadau llaeth. [Y Safon – 20.2] | | | Camau unioni wedi'u cymryd mewn perthynas ag argymhellion y ddau archwiliad â ffocws. | Wedi'i gwblhau |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **39** |
| **Wedi'i gwblhau** | **20** |
| **Cynnydd da** | **13** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **3** |
| **Dim Cynnydd** | **1** |
| **Heb eu profi** | **2** |
| **Yn weddill** | **19** |